OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 880 (Cy.111)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*25 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512(3) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**).

Enw, cychwyn a chymwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ciniawau Ysgol) (Gofyniad Rhagnodedig) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

ystyr "addysg feithrin" ("*nursery education*") yw addysg lawnamser neu ran-amser sydd yn addas ar gyfer plant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol orfodol;

a

mae'r cyfeiriad at ysgol a gynhelir yn gyfeiriad at ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol o fewn ystyr adran 512(6) o Ddeddf 1996.

Gofyniad rhagnodedig ar gyfer ciniawau ysgol

3.—(1) Rhagnodir y gofyniad canlynol at ddiben adran 512(3)(a) o Ddeddf 1996.

(2) Rhaid bod disgybl cofrestredig sydd yn derbyn addysg feithrin yn derbyn addysg lawnamser.

(**1**) 1996 p.56; mewnosodir adran 512 yn rhagolygol gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Mae'r rhannau perthnasol o adran 201 i ddod i rym ar 31 Mawrth 2003 yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/3185 (Cy.301) (C.107)). Am ddiffiniad o "prescibed", *gweler* adran 512(6).

(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002.